# 7. Ymgynghori ac Ymgysylltu

## 7a. Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

Nodwyd yn Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor 2021/22 bod ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol yn faes y gellid ei wella. Ym mis Mawrth 2023, cafodd holiadur ei lunio a'i rannu â chynrychiolwyr Undebau Llafur i ymateb i adborth a rhoi adborth: a nhw oedd y budd-ddeiliad mewnol allweddol. Ymgynghorwyd ag Unsain, Undeb y GMB ac Unite the Union, a chafodd Cyngor Sir y Fflint ymatebion gan Unsain ac Unite the Union. Ni ymatebodd GMB.

Ar y cyfan, roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn, ac Undebau Llafur yn dweud bod ganddynt berthynas ddiwydiannol dda gyda'r Cyngor. Byddai'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau yn gynharach, pan fydd problemau/materion yn cael eu nodi gyntaf yn hytrach na dechrau unwaith y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud yn well, ond mae'r Undebau Llafur yn credu bod y Cyngor yn gwrando, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal.

## 7b. Ymgynghori â Gweithwyr

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda gweithwyr Cyngor Sir y Fflint yn ystod misoedd yr haf 2023. Roedd arolwg yn agored i bob gweithiwr (ac eithrio gweithwyr mewn ysgolion) a diben yr ymgynghoriad oedd cael adborth ar chwe maes pwnc allweddol: Ymgysylltu, Perfformiad, Iechyd Meddwl a Lles, Cyfathrebu, Gweithio Hybrid a Gweledigaethau a Gwerthoedd. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a chaiff ei ddefnyddio i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, nodi'r meysydd i'w gwella'n barhaus a chyfrannu hefyd at lunio a datblygu strategaethau a fframweithiau corfforaethol y Cyngor.

Fel rhan o'r ymgynghoriad gofynnwyd i weithwyr am eu safbwyntiau a'u barn ar set newydd o werthoedd craidd arfaethedig i fod wrth wraidd popeth yr ydym ni fel y Cyngor yn ei wneud, a bydd yn diffinio'r berthynas rhwng y Cyngor a dinasyddion Sir y Fflint.

# 9. Cynnydd ar Gyfleoedd ar gyfer Gwella o 2021/22

| Cyfle i Wella 2021/22 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema y Cyfrennir ato | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Edrych ar strategaethau'r gweithlu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio adnoddau ac ymateb i heriau recriwtio (B13) | Ionawr 2023 - Hydref 2023 | B - Cynllunio a Rheoli Adnoddau | Tîm Prif Swyddogion | **melyngoch** | Mae'r broses gymeradwyo'r gwaith o reoli swyddi gweigion yn parhau i fynd rhagddi, er mwyn sicrhau bod swyddi hollbwysig yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer recriwtio<br><br>O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28, mae recriwtio a chadw yn faes ffocws allweddol fel rhan o'r flaenoriaeth 'Pobl'. Mae Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2023.<br><br>Disgwylir i'r gwaith o weithredu dull talu newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio ddechrau ym mis Hydref 2023 a bydd yn parhau tan 2024. Bydd hefyd yn ffurfio rhan o Gyfleoedd Gwella 2022/23 (gweler Adran 8 isod am fwy o wybodaeth). |

| Cyfle i Wella 2021/22 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema y Cyfrennir ato | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Creu cronfa ddata ymgynghori ac ymgysylltu i'w defnyddio gan bob gwasanaeth er mwyn cofrestru eu gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu (G29)<br>2) Datblygu porth ymgynghori ac ymgysylltu ar wefan Sir y Fflint i ddarparu adnodd canolog ar gyfer ymgynghoriadau/ymgysylltiadau caeedig, presennol a rhai yn y dyfodol a gynhelir gan y Cyngor (G29)<br>3) Creu cronfa ddata budd-ddeiliaid ymgynghori ac ymgysylltu i gadw manylion ystod eang o wybodaeth rhwydwaith. Bydd hyn yn sicrhau ein bod, wrth ymgysylltu, yn estyn mor bell ac mor eang â phosibl, gan gynnwys gyda'r grwpiau nodweddion gwarchodedig (G29) (G30) | Mawrth 2025 | G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid / Swyddog Cyfathrebu (Mewnol) | **melyngoch** | Oren Gwrthododd y Bwrdd Strategaeth Ddigidol achos busnes i ddatblygu datrysiad lleol oherwydd blaenoriaethau a chapasiti sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn TG. Roedd datrysiad trydydd parti i fod i gael ei gaffael ond arweiniodd newid mewn blaenoriaethau cyllidebol at dynnu cais am gyllid pwysau yn ôl fel gwariant nad oedd yn hanfodol. Mae'r cyfleoedd yn uchelgeisiau hirdymor, yn amodol ar gyllid a/neu gapasiti i ddatblygu ein datrysiad ein hunain. |
| 1) Rhaglen waith i'r dyfodol o weithgarwch ymgynghori/ymgysylltu ar draws yr holl bortffolios, i'w chynhyrchu a'i rhannu ar y we (G27) | Mawrth 2024 | G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid / Swyddog Cyfathrebu (Mewnol) | **melyngoch** | Bydd rhaglen o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y Cyngor yn cael ei datblygu yn seiliedig ar fewnbwn yr holl bortffolios. Bydd hyn yn parhau tan fis Mawrth 2024 a bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. |

| Cyfle i Wella 2021/22 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema y Cyfrennir ato | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Adolygu'r sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â'r Egwyddorion Cenedlaethol a'u safle ledled Cymru – adolygu ac ailddatgan ein hymrwymiad yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwil (G29) | **CWBLHAWYD** | G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid | **Gwyrdd** | Mae'r cyfle hwn i wella wedi'i gwblhau, a lansiwyd Egwyddorion Cenedlaethol newydd ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Your-Council/National-Principles-for-Public-Engagement-in-Wales.pdf |

